# Dirymu dyfarniad trwydded amlblecs radio ar raddfa fach Llandudno a Betws-y-Coed

## Cefndir

O dan adran 51(6) o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019), gall Ofcom ddirymu'r dyfarniad o drwydded amlblecs radio ar raddfa fach pan nad yw'r drwydded ei hun wedi'i rhoi eto ac mae gan Ofcom sail resymol dros gredu na fydd y person y dyfarnwyd y drwydded iddo'n darparu'r gwasanaeth o fewn 18 mis i ddyddiad y dyfarniad.

## Penderfyniad

Mae Ofcom wedi penderfynu dirymu'r dyfarniad trwydded a wnaethom ar 30 Medi 2022 i Sound Bay Community Digital CIC ("Sound Bay") mewn perthynas â gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach Llandudno a Betws-y-Coed.

Mae hyn ar y sail bod yr amodau statudol ar gyfer dirymu fel y nodir uchod wedi'u bodloni. Yn gyntaf, nid yw'r drwydded a ddyfarnwyd wedi'i rhoi eto. Yn ail, mae gennym sail resymol dros gredu na fydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn 18 mis i'r dyfarniad (h.y. erbyn 30 Medi 2024) gan fod Sound Bay wedi hysbysu Ofcom nad yw'n bwriadu lansio'r gwasanaeth mwyach. Mae Sound Bay wedi esbonio ei fod wedi cyrraedd y farn yng ngoleuni cynnydd sylweddol yng nghostau rhentu safleoedd trawsyrru a chyfleustodau cysylltiedig ers dyfarnu'r drwydded.

## Y camau nesaf

Wrth esbonio ei resymau dros beidio â bwrw ymlaen, dywedodd Sound Bay ei bod yn annhebygol o ail-ymgeisio am ardal drwydded mai ef oedd yr unig ymgeisydd amdano y tro diwethaf, pe bai'n cael ei hail-hysbysebu. Fodd bynnag, bydd Ofcom yn ystyried a ddylid ail-hysbysebu trwydded amlblecs ar raddfa fach yn yr ardal pe baem yn derbyn datganiadau o ddiddordeb yn dilyn y cyhoeddiad heddiw.

Pe baem yn penderfynu gwneud hynny mewn egwyddor, mae'n bosibl y byddai'n briodol addasu'r ardal a hysbysebir. Er i'r ardaloedd a hysbysebwyd yn wreiddiol gymryd mynegiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan Ofcom yn 2018 i ystyriaeth, nodwn y bu i Sound Bay gynnig darpariaeth i ganran gymharol isel o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd (gan eithrio llawer o ran ddeheuol yr ardal gan gynnwys Betws-y-Coed). At hynny, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer ardal gyfagos Y Rhyl, Rhuthun a'r Wyddgrug pan gafodd ei hysbysebu. Mae'n bosibl felly, i'r graddau y mae diddordeb mewn sefydlu amlblecs ar raddfa fach yn yr ardal, fod barn wedi symud ymlaen o ran yr ardal fwyaf priodol i gynnig darpariaeth iddi. Mae'n bosibl y bydd unrhyw ddarpar ymgeisydd sy'n mynegi diddordeb hefyd yn dymuno mynegi barn ar y mater hwnnw, ac ar amseriad unrhyw ail-hysbyseb.